Mumbles Community Council

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu Dydd Mercher, 26 Mehefin 2024, am 2pm.
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynhorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-Gadeirydd), Tim Zhou, Martin O'Neill, Richard Jarvis a Hannah Hunter

**Swyddogion yn bresennol:** Claire Anderson – Swyddog Digwyddiadau, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CT2406-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd Rhian Evans

CT2406-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2406-03 Cofnodion cyfarfodydd blaenorol y pwyllgor
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mai 2024 yn gofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mai 2024 yn gofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cynghorydd Marshall ac eiliwyd gan y Cynghorydd Jarvis.

Ymunodd y Cynghorydd Zhou â'r cyfarfod am 2.02pm

CT2406-04 **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**
Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Camau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u diweddaru a'u dangos fel rhai cyflawn lle bo'n briodol; manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

CT2406-05

**Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 30/04/2024 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**
Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, eisoes wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor, ac nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud ag adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau at gynllun newydd yr adroddiadau, a ddyfeisiwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol i wneud yr adroddiadau yn haws i aelodau'r pwyllgor eu deall.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn y cyfarfod mewn perthynas â'r adroddiadau hyn, ond nododd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, fod yr adroddiadau cyllidebu 'cod lliw' newydd a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn welliant mawr, gan eu bod yn symlach, yn gyflymach ac yn haws eu deall. Cytunodd yr holl gynghorwyr a oedd yn bresennol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Ebrill 2024.

CT2406-06

**Diweddariad ar Naws y Mwmbwls**
Amlinellodd y Cynghorydd Zhou, er bod cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu am y tro ar gyfer dechrau mis Gorffennaf, bod cynnydd wedi'i ohirio wrth ddisgwyl penderfyniad gan y cyngor llawn ym mis Gorffennaf i gymeradwyo'r gyllideb angenrheidiol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Zhou y dylai'r gystadleuaeth fynd yn ei blaen ym mis Hydref 2024. Dywedodd y Cynghorydd O'Neill ei fod yn cysylltu ag eglwysi San Pedr a'r Holl Saint ynghylch lleoliadau addas.

**Adborth am Ŵyl y Mwmbwls a gosod dyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 2025**

CT2406-07

Amlinellodd y Swyddog Digwyddiadau, Claire Anderson, a'r Cynghorydd Marshall yn gryno fod Gŵyl y Mwmbwls wedi bod yn llwyddiant mawr gyda'r holl gynghorwyr a swyddogion yn cydweithio'n dda. Fodd bynnag, bydd adroddiad llawn yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf yn dilyn cyfarfod ôl-drafod.

Nododd y Cynghorydd O'Neill fod nifer o gwynion wedi dod i law mewn perthynas â chyflwr tiroedd Castell Ystumllwynarth yn dilyn y digwyddiad. Roedd Claire Anderson wedi ysgrifennu at y Tîm Digwyddiadau Arbennig yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe am gyngor a bydd y Cynghorydd O'Neill yn mynd i'r afael â'r pryderon unwaith y bydd ymateb wedi'i dderbyn gan y Tîm Digwyddiadau Arbennig. Mae'r Cynghorydd O'Neill a Claire Anderson wedi ymweld â'r tiroedd ar sawl achlysur ers yr ŵyl ac nid yw cyflwr y caeau i'w gweld yn waeth na blynyddoedd blaenorol ac nid oes unrhyw ddifrod difrifol i'r tiroedd yn amlwg.
**PENDERFYNWYD:** Cyfarfod ôl-drafod ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mercher 10 Gorffennaf 2024 rhwng 11am a 12.30pm ym Mhier y Mwmbwls. Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i anfon gwahoddiadau at holl aelodau'r pwyllgor.

**ARGYMELLWYD** bod dyddiad Gŵyl y Mwmbwls y flwyddyn nesaf yn cael ei osod ar gyfer 7 Mehefin 2025.

CT2406-08

**Twrnamaint boules**

Amlinellodd y Cynghorydd Marshall y bydd y twrnamaint boules arfaethedig yn cael ei ohirio tan 2025 gan nad oes digon o arian ar gael yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Gohiriwyd tan gyfarfod Ionawr 2025, pan ellir archwilio cyfleoedd ariannu newydd.

CT2406-09

**Gŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls**

Manylodd y Cynghorydd Jarvis ar sut yr oedd wedi ymweld â nifer o leoliadau posibl, gan gynnwys The George, Oyster House, Waterloo Stores a The Vic. Roedd pob lleoliad wedi bod yn frwdfrydig, ond efallai y bydd cynnal y digwyddiad yng ngwanwyn 2025 yn fwy realistig oherwydd nid yw bandiau addas ar gael am weddill y flwyddyn hon.

Cafwyd trafodaeth ar sut y gellid rhoi cymhorthdal i dafarndai a lleoliadau eraill gyda'r holl gynghorwyr. Un opsiwn yw bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn noddi un grŵp tra bod y lleoliad dan sylw yn gyfrifol yn ariannol am y llall. Mae'r Cynghorydd Jarvis yn rhagweld y bydd pob lleoliad yn cynnal dwy neu

dair act/grŵp gyda chyswllt rhwng y gwahanol leoliadau a rhaglen o ddigwyddiadau yn cael ei threfnu yn debyg i'r hyn a gynhelir mewn digwyddiadau 'ymylol'. Trafodwyd nawdd hefyd, gyda Swansea Building Society yn cael ei chrybwyll fel cefnogwr da lleol i ddigwyddiadau lleol eraill.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Jarvis i 'gadarnhau' dyddiad/dyddiadau posibl ar gyfer y digwyddiad yng ngwanwyn 2025, a bydd cynigion ariannol hefyd yn cael eu paratoi ar gyfer cyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf.

CT2406-10

**Diweddariad ar y Mwmbwls Hanesyddol**

Gohiriwyd tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf

CT2406-11

**Mynediad at wybodaeth i dwristiaid**

Amlinellodd y Cynghorydd Zhou fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn darparu gwefan ar gyfer ymwelwyr ag Abertawe, visitswanseabay.com, sydd â dau le o ddiddordeb i'r Mwmbwls wedi'u rhestru arni, sef Pier y Mwmbwls a Gower Gallery.

Cafwyd trafodaeth ar sut i wella cyfleusterau a gwybodaeth i ymwelwyr â'r Mwmbwls. Nid oedd gwefan Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi'i diweddaru mewn perthynas â'r Mwmbwls ers nifer o flynyddoedd, ac er bod y clerc ynghyd â Claire wedi siarad â Swyddog Gwybodaeth i Dwristiaid Cyngor Dinas a Sir Abertawe, roedd unrhyw newidiadau mawr wedi'u gohirio nes bod canlyniad y datblygiad arfaethedig o Ganolfan Ostreme yn hysbys. Yn ogystal, roedd y Cynghorydd O'Neill wedi cysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch hyrwyddo gwybodaeth twristiaeth i'r Mwmbwls.

**PENDERFYNWYD:**Er y bydd opsiynau gwybodaeth ddigidol, gan gynnwys y defnydd o codau QR, yn cael eu hystyried yn y dyfodol, dylid ymchwilio i'r opsiwn tymor byr o osod carwsél yng Nghanolfan Ostreme gyda thaflenni twristiaid.

Mumbles Community Council

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i ymchwilio i opsiynau ar gyfer gosod carwsél gwybodaeth i dwristiaid yng Nghanolfan Ostreme.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.36pm.**

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 24 Gorffennaf 2024**

Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Wednesday, 26 June 2024, at 2pm. Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair) Rob Marshall (Vice Chair), Tim Zhou, Martin O'Neill, Richard Jarvis and Hannah Hunter

**Officer Present:** Claire Anderson – Events Officer and Ian Hughes – CSO

CT2406-01 **Apologies for Absence**
Cllr Rhian Evans

CT2406-02 **Declarations of Interest**
None

CT2406-03 Minutes of the Previous Meetings of the Committee
To approve the minutes of the meeting held on the 29th May 2024 as a true record.

**RESOLVED:** To approve the meeting minutes held on 29th May 2024 as an accurate record. Proposed by Cllr. Marshall and seconded by Cllr. Jarvis.

Cllr Zhou joined the meeting at 2.02pm

CT2406-04 **Update on actions from previous meetings.**
The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

Mumbles Community Council

CT2406-05

**Budget Monitoring Report to 30/04/2024 - RFO, Paul Beynon**
Reports attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to committee members, and no questions relating to the budget reports had been provided either to CSO or The RFO prior to the meeting.

The CSO made reference to the new design of the reports, devised by The RFO to simplify the understanding of reports for committee members.

No questions were raised at the meeting in relation to these reports however The Chair, Cllr O'Connor noted that the new 'colour coded' budgeting reports prepared by The RFO were a great improvement, being more straightforward, quicker and easier to understand. All councillors present agreed.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 30th  April 2024.

CT2406-06

**Essence of Mumbles Update**
Cllr. Zhou outlined that whilst further meetings had provisionally been arranged for early July, progress had been delayed pending a decision by Full Council in July to approve the necessary budget. Cllr Zhou confirmed that the competition should go ahead in October 2024. Cllr O'Neill stated that he was liaising with St Peters and All Saints Churches over suitable venues,

CT2406-07

**MumblesFest Feedback and setting date for MumblesFest 2025**

The Events Officer, Claire Anderson and Cllr Marshall briefly outlined that the MumblesFest Event had been a great success with all councillors and officers involved working well together. However, a full report is to be provided at July's Committee Meeting following a de-brief meeting.

Cllr O'Neill noted that a number of complaints had been received in relation to the condition of the grounds at Oystermouth Castle following the event. Claire Anderson had written to Special Events at SCC for advice and Cllr O'Neill will be addressing the concerns once a response has been obtained from Special events. Both Cllr O'Neill and Claire Anderson have visited the grounds on a number of occasions since the Festival took place and the condition of the fields does not appear to be any worse than previous years and no serious damage to the grounds is apparent.

**RESOLVED** De-brief meeting for MumblesFest fixed for Wednesday 10th July 2024 between 11am and 12.30pm at Mumbles Pier. CSO to send invitations to all committee members.

**RECOMMENDED;** that date for next year's MumblesFest be set for Saturday 7th June 2025.

CT2406-08

**Boules Tournament**

Cllr Marshall outlined that the proposed Boules Tournament will be postponed until 2025 due to insufficient funding being available in the current financial year.

Deferred to January 2025 Meeting when new funding opportunities can be explored.

CT2406-09

**Mumbles Folk and Blues Festival**

Cllr. Jarvis detailed how he  had visited a number of potential venues including the George, Oyster House, Waterloo Stores and The Vic. All venues had been enthusiastic, however holding the event in The Spring of 2025 may be more realistic due to suitable bands being booked up for the remainder of this year.

A discussion on how pubs and other venues could be subsidised took place with all councillors. One option being that MCC sponsor one group whilst the venue in question is financially responsible for the others. Cllr Jarvis envisages each venue hosting 2 or 3 acts/groups with liaison between the different venues taking place and a programme of events being organised similar to that which takes place at 'fringe' events. Sponsorship was also discussed with Swansea Building Society being mentioned as a local and good supporter of other local events.

**ACTION:** Cllr Jarvis to 'firm up' a potential date/s for the event in Spring 2025, financial proposals also to be prepared for July's Committee Meeting.

CT2406-10

**Historic Mumbles Update**

Deferred to July's Committee Meeting

Mumbles Community Council

CT2406-11

**Tourism Information Access**

Cllr Zhou outlined that SCC provide a website for visitors to Swansea, SwanseaBAy.Com which had two places of interest to Mumbles listed, Mumbles Pier and Mumbles Gallery.

A discussion took place on how to improve facilities and information for visitors to Mumbles. SCC's website had not been updated in relation to Mumbles for a number of years and although The Clerk together with Claire had spoken with SCC's Tourist Information Officer, any major changes had been postponed until the outcome of the proposed Ostreme Centre Development was known. In addition, Cllr O'Neill had liaised with SCC over promoting tourism information for Mumbles.

**RESOLVED**: Although digital information options including the use of QR Codes will be considered in the future, the short-term option of placing a carousel at Ostreme with tourist leaflets should be researched.

**ACTION:** CSO to research options of installing a tourist information carousel at Ostreme.

**The meeting ended at 2.36pm.**

**Next Meeting on 24th July 2024**